# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Cyfarfod Hybrid – Zoom – Neuadd y Sir**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 13 Hydref 2022**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuridau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 24)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD |
|---|---|

7.1. **Cwestiwn i Aelod y Cabinet gyda chyfrifoldeb am Gyllid a Thrawsnewid gan Patrick Edwards**

A fydd y cyngor yn ad-dalu treth y cyngor i drethdalwyr y cyngor oherwydd y gwasanaethau sylweddol lleiedig a ddarparwyd gan y cyngor yn ystod pandemig Covid-19, yn enwedig gan fod y Llywodraeth wedi talu 80% o gyflogau llawer o weithwyr y cyngor trwy'r cynllun ffyrlo?
(Tudalennau 25 - 26)

7.2. **Cwestiwn i Aelod y Cabinet gyda chyfrifoldeb ar gyfer Powys sy'n Dysgu gan Catherine Evans**

Effeithiwyd ar blant ysgol i raddau anghymesur gan gyfnodau clo COVID a darpariaeth amrywiol gan ysgolion. Mae dyddiau DP ychwanegol i hwyluso cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd wedi cael effaith bellach ar ddysgwyr.

A fydd CSP yn cynnig hawliau llawn i ddysgwyr i dderbyn 190 diwrnod ysgol y flwyddyn o hyn ymlaen?
(Tudalennau 27 - 28)

7.3. **Cwestiwn i Aelod y Cabinet gyda chyfrifoldeb am Gyllid a Thrawsnewid**

Ydy CS Powys yn bwriadu defnyddio ei bwerau disgresiwn i ddileu'r atebolrwydd am dreth y cyngor ychwanegol, fydd yn berthnasol i lawer iawn o fythynnod gwyliau ar ffermydd o ganlyniad i ddeddfwriaeth ddiweddar?

**CEFNDIR:**

***Deddfwriaeth Ddiweddar:*** Mae Bythynnod Gwyliau ar Ffermydd, a ddyluniwyd yn bwrpasol, fel arfer wrth addasu adeiladau fferm segur, wedi cael eu cynnwys o dan ddeddfwriaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddelio gydag ail gartrefi.

Hwyrach y cewch eich synnu i glywed fod Llywodraeth Cymru'n gallu cynnwys busnesau nad ydynt, yn ôl eu diffiniad, yn ail gartrefi, ac nid yn

aelwydydd. Serch hynny, mae'r ddeddfwriaeth bellach mewn grym.

Bydd bywoliaethau llawer o'r busnesau teuluol hirhoedlog a llwyddiannus hyn yn cael eu dinistrio, a bydd yn rhaid iddynt ail-wampio'r eiddo at ddefnydd masnachol amgen yn sgil y ddeddfwriaeth yma.

***Effaith ar Dai:*** Yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol, mae eiddo felly'n cael eu hatal rhag eu defnyddio fel llety parhaus gan amodau cynllunio. Fel y cyfryw, mae'r eiddo hyn yn diogelu pwysau ar argaeledd tai lleol trwy dderbyn ymwelwyr mewn eiddo annomestig.

Pan gaiff eiddo felly eu hail-ddefnyddio ar gyfer defnydd arall ar wahân i wyliau, bydd yr holl nosweithiau sy'n cael eu treulio ynddynt gan ymwelwyr yn cael eu dynodi i dai lleol, ac yn arwain at fwy o alw ar brisiau tai ac argaeledd llety ar rent.

***Dim Dewis:*** Er mwyn dangos effaith y ddeddfwriaeth ar fusnes nodweddiadol gyda 5 uned i'w gosod ar gyfer Gwyliau fferm: Bydd y busnes yn wynebu 5 bil Newydd am Dreth y Cyngor, ynghyd â bil treth cyfredol y perchennog ar elfen defnydd domestig o'r safle.

Mae hyn yn golygu nid yn unig costau gweithredu ychwanegol i'r busnes, sy'n effeithio ar hyfywedd a'r gallu i gystadlu, ond mae hefyd yn golygu malltod ar yr eiddo. Bydd gan y cartref cyfanswm o 6 bil treth y cyngor, sy'n golygu nad yw'n bosibl ei werthu, neu'n ei ddibrisio'n sylweddol. Mae'n amlwg bod angen i berchnogion osgoi'r sefyllfa honno. Felly, bydd llawer o'r unedau gwyliau hyn sy'n 'garedig i gartrefi lleol' yn cael eu colli. Ni fydd yn creu unrhyw gartrefi domestig ychwanegol, a bydd yn trosglwyddo'r galw gan ymwelwyr i roi mwy o bwysau ar dai lleol.

***Dileu Atebolrwydd i dalu Treth y Cyngor:*** Mae dros 90% o'r holl eiddo hunan-arlwyo ar restr trethi annomestig yng Nghymru wedi elwa o ryddhad rhag treth i fusnesau bach ar raddfa 100% ers nifer o flynyddoedd. Felly nid yw dileu'r atebolrwydd i dalu Treth y Cyngor ar fythynnod gwyliau fferm yn afresymol.

Pe bai angen, gellir gwireddu hyn mewn ffordd niwtral o safbwynt refeniw trwy addasadiadau i bolisi Premiwm Treth y Cyngor.

***Dylanwadu ar Gyfansoddiad Llety Gwyliau ym Mhowys:*** A wnewch chi ystyried gallu CS Powys i ddylanwadu ar gyfansoddiad llety gwyliau yn y sir yn y dyfodol. Yn sgil twf enfawr mewn llety tebyg i AirBnB dros flynyddoedd diweddar fydd yn debygol o gael ei achosi gan y ddeddfwriaeth newydd, efallai y byddai lleihad o 30% mewn llety hunan-arlwyo'n briodol (wedi'r cwbl, dyna'r nod).

Mae gan CS Powys y gallu i ddylanwadu ar a yw llety Bythynnod Gwyliau Fferm yn rhan o'r lleihad o 30% neu os caiff ei gadw. Byddai synnwyr cyffredin yn awgrymu y dylai'r mathau hyn o eiddo fanteisio trwy'r ddeddfwriaeth, oherwydd eu budd i'r gymuned, yn lle cael eu heffeithio. Os hoffech ddeall yn well pam na fydd cymaint o'r busnesau hyn yn bodloni'r meini prawf newydd, mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: https://www.responsiblecottages.co.uk/protect-welsh-farm-cottages-white-paper

Noder: mae dadl debyg yn bodoli hefyd ar gyfer pob eiddo sydd â chyfyngiadau cynllunio, ac ar gyfer llawer o randai.

***Chwarae Teg***: Mae'n amlwg yn annheg i gynnwys pob busnes Bythynnod Gwyliau Fferm yn yr un categori ag ail gartrefi. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y cyfrifoldeb ar gyfer mynd i'r afael â hyn ar ysgwyddau Awdurdodau Lleol, trwy eich defnydd o bwerau disgresiwn.

(Tudalennau 29 - 32)

| 8. | ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL |
|---|---|

I ystyried adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.
(Tudalennau 33 - 108)

| 9. | CYFANSODDIAD - ADRAN 4 - SIARAD AR GYNIGION |
|---|---|

I ystyried adroddiad y Pennaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro.
(Tudalennau 109 - 142)

| 10. | CYFARFODYDD Y CYNGOR DARLLEDU |
|---|---|

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyfreithiol a Swyddog Monitro.
(Tudalennau 143 - 144)

| 11. | RHYBUDD O GYNNIG - AMBIWLANS AWYR |
|---|---|

Mae'r ambiwlans awyr, ers nifer o flynyddoedd, wedi darparu gwasanaeth hanfodol a gwerthfawr yng Nghanolbarth Cymru.

Mae'r bwriad arfaethedig i drosglwyddo safle'r ambiwlans awyr o'r Trallwng felly yn gam yn ôl, ac o bryder mawr i'n trigolion.

Mae'n hanfodol fod gwasanaeth yr un mor effeithlon yn ystyried natur wledig yr ardal, yr anawsterau o ran cael gafael ar ambiwlans cyffredin a'r opsiynau iechyd llai sydd ar gael yma.

Galwn felly am gadw safle'r ambiwlans awyr yn y Trallwng, ac i ystyried yr opsiwn o ymestyn oriau'r gwasanaeth.

Cynigydd: Y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eilydd: Y Cynghorydd Sir Gary Mitchell.

**Sylw'r Adran Gyllid**

Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol yn sgil y cynnig arfaethedig, oherwydd dim ond gohebiaeth fydd ei hangen gydag Ambiwlans Awyr Cymru. Ni ddisgwylir unrhyw gamau gweithredu na chostau eraill.

| 12. | RHYBUDD O GYNNIG - CLUDIANT YSGOL |
|---|---|

Yn ystod y misoedd diweddar, derbyniwyd nifer o apeliadau i'r Tîm Cludiant Ysgol, mewn perthynas â mynediad at gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol. Mae trigolion wedi cysylltu â'u Cynghorwyr Sir a'u cynrychiolwyr yn y Senedd yn gofyn am gymorth. Yn amlach na pheidio, mae'r apeliadau'n deillio o newidiadau i ddyraniadau dalgylchoedd, cynseiliau hanesyddol a llai o hyblygrwydd, ond yn eu plith mae:

- Brodyr/chwiorydd iau yn derbyn cludiant am ddim i ysgol wahanol i frawd/chwaer hŷn oherwydd newid y dalgylchoedd.
- Problemau gyda'r ffordd y defnyddir GIS i adnabod yr ysgol agosaf, gyda rhai bysiau ysgol yn teithio trwy ddalgylch arall ar y ffordd i'r ysgol.
- Nid yw'r system a ddefnyddir i weithio allan y ffordd fyrraf rhwng y cartref a'r ysgol yn ystyried y ffordd a ddefnyddir gan fws yr ysgol, neu hyd yn oed y ffordd fwyaf ymarferol, briodol mewn cerbyd.
- Disgyblion sy'n gymdogion a/neu'n ffrindiau agos yn cael eu gorfodi i fynd i ysgolion gwahanol oherwydd mae'r ffin rhwng dalgylchoedd yn cael ei weithredu mewn ffordd gaeth iawn heb unrhyw le am hyblygrwydd.

Effaith hyn yw creu straen diangen ar gyfer disgyblion a'u rhieni, a bydd mewn rhai achosion, pan fydd gan rieni'r amser a'r adnoddau ariannol, yn arwain at rieni yn dilyn y bws i'r ysgol, gan gynyddu olion traed carbon yn ddiangen.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Gwasanaethau Cludiant Ysgol ac Addysg i sicrhau fod yr adolygiad cyfredol o Bolisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol nid yn unig yn arwain at fwy o eglurder o ran hawl disgyblion/myfyrwyr i gludiant am ddim, ond hefyd mae'n ategu gwell dewis i rieni o safbwynt dethol ysgol, lle gellir gwneud hyn heb gynyddu'r gyllideb ar gyfer cludiant ysgol.

Cynigydd: Y Cynghorydd Sir Lucy Roberts
Eilydd: Y Cynghorydd Sir Adrian Jones

**Sylw'r Adran Gyllid**
Mae'r Gwasanaeth wedi cadarnhau, fel rhan o'r adolygiad o'r polisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, y bydd yn cynnig eglurder i rieni i ganiatáu iddynt wneud dewis deallus yngylch yr ysgol, lle bydd y Cyngor yn darparu cludiant iddynt o gartref arferol y dysgwr.

| 13. | RHYBUDD O GYNNIG - DRAENIO A LLIFOGYDD |
|---|---|

Yn sgil y cynnydd mewn tywydd drwg a llifogydd dros flynyddoedd diweddar, mae'n debyg nad yw cyflwr cyfredol ein draeniau a chwteri'n gallu ymdopi adeg glawiad cynyddol neu ddifrifol. Mae'r sefyllfa'n cael ei waethygu oherwydd diffyg clirio draeniau fel rhan o raglen oherwydd yr adnoddau cyfyngedig sydd gan Bowys. Dengys adborth gan ein trigolion, cynghorwyr eraill a chynghorau cymuned fod pobl o'r farn fod problemau mewn perthynas â chynnal a chadw ein ffyrdd yn cael eu

gwaethygu gan y dŵr cynyddol sy'n rhedeg lawr y ffyrdd, ac a ddylai fynd i'r draeniau a'r cwteri.

Yn gynharach eleni, cafwyd llifogydd difrifol ar draws Powys. Er nad yw'n bosibl dileu'r risg o lifogydd adeg glawiad eithriadol, ac achoswyd llifogydd hefyd wrth i afonydd orlifo, mewn rhai ardaloedd effeithiwyd ar eiddo gan y llifogydd, oherwydd efallai diffyg clirio'r draeniau'n rheolaidd. Cartrefi yw'r rhain nad ydynt gerllaw afonydd neu nentydd, ond oherwydd dŵr wyneb y ffordd yn llifo iddynt, heb unrhyw le arall i'r dŵr fynd.

Cred Grŵp Ceidwadwyr Powys bod angen cael amserlen cynnal a chadw draeniau blynyddol ar gyfer ffyrdd y sir. Fodd bynnag, gwerthfawrogwn fod angen adnoddau digonol i ddarparu hyn. Dyna'r rheswm ein bod eisoes wedi annog Cyngor Powys i ddefnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, Ffyniant Bro Llywodraeth y DU i wneud cais am gyllid ar gyfer o leiaf dau beiriant chwistrellu ychwanegol ym Mhowys. Tra bo proses SPF ar y gweill, mae angen gweithredu ar frys, cyn i'r Gaeaf gyrraedd, er mwyn adnabod a chlirio'r draeniau a'r cwteri lle mae'r risg mwyaf sy'n debygol o achosi llifogydd i eiddo lleol.

**Mae'r Cyngor hwn yn galw ar weinyddiaeth Cyngor Powys i:**

1. Gyfarwyddo rheolwyr y timau priffyrdd, ar y cyfle cynharaf posibl cyn misoedd y Gaeaf, i weithio gydag Aelodau Lleol i adnabod draeniau a chwteri lle mae angen gwaith clirio er mwyn atal llifogydd lleol.
2. Defnyddio adnoddau mewn ffordd briodol i sicrhau y caiff y draeniau dan sylw eu clirio a'u gwagio fel mater o frys cyn misoedd y Gaeaf.

Cynigydd: Y Cynghorydd Sir Amanda Jenner
Eilydd: Y Cynghorydd Sir Jonathan Wilkinson

**Sylw'r Adran Gyllid**

Mae cyfarfodydd depo yn cael eu trefnu rhwng Hydref a Rhagfyr 2022 i gwrdd â'r holl aelodau i drafod yr holl faterion priffyrdd gan gynnwys draenio a gwagio rhigolau. Mae gan y Cyngor 4 peiriant ar draws y Sir i gefnogi ffyrdd sirol a chefnffyrdd. Byddwn yn ystyried pryderon aelodau' fel rhan o'r broses ymgysylltu hwn gan sicrhau bod y 4 peiriant yn cael eu blaenoriaethu yn briodol i sicrhau bod y rhigolau critigol yn cael eu clirio. Bydd hyn yn gadael rhigolau eraill a gafwyd eu glanhau yn hanesyddol pan oedd y gwasanaeth yn rhedeg 8 peiriant rhigolau.

Er y gwneir pob ymdrech i gynnwys y rhigolau hanfodol ledled y Sir yn seiliedig ar y 4 peiriant, er mwyn cynnwys yr holl rigolau byddai angen i ni fynd nol i 8 peiriant ar draws y Sir, a fyddai'n gost refeniw ychwanegol o £400k y flwyddyn

| 14. | RHYBUDD O GYNNIG - ARGYFWNG NATUR |
|---|---|

**Rhagarweiniad**

At ddibenion y cynnig hwn mae 'natur' yn golygu pob organeb byw, a chymhlethdodau ecolegol (gan gynnwys elfennau nad ydynt yn fyw [megis aer, dŵr, pridd] a phrosesau) maent yn rhan ohonynt. Mae'n cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau, ymhlith rhywogaethau ac ecosystemau; gwydnwch ecosystemau; y gwasanaethau maent yn eu darparu i gymdeithas, a'r ffordd mae bodau dynol yn rhyngweithio â natur.

Amlygodd adolygiad yr Athro **Syr Partha Dasgupta i Economeg Bioamrywiaeth**, a gomisiynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn 2019 a diweddarwyd y llynedd, nad yw dynoliaeth yn bodoli ar ben ei hunan ac ar wahân i natur ond mae'n eistedd o'i fewn. Mae natur yn ased y mae pob agwedd o'n cymdeithas yn dibynnu arno a chyda bioamrywiaeth yn dirywio'n gyflymach nag ar unrhyw adeg yn hanes dynol, rydym yn tanseilio'r cynhyrchiant, y gwytnwch a'r addasedd y mae natur yn rhoi i'n cymdeithas. Mewn sir fel Powys, mae ein colled natur yn tanseilio cynhyrchiant, gwytnwch ac addasedd ein sectorau amaethyddol a choedwigaeth ochr yn ochr â'r rhyng-ddibyniaeth â'r diwydiant twristiaeth.
Yn syml, mae Powys yn dibynnu ar fyd natur.
Rydym yng nghanol argyfwng natur. Mae bron i hanner holl fywyd gwyllt y DU yn dirywio yn y tymor hir ac mae 15% o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu. Mae'r argyfwng hinsawdd ond yn prysuro'r dinistr hwn o'r amgylchedd naturiol, yn difrodi cynefinoedd ac amharu ar ecosystemau. Eto i gyd, yr union gynefinoedd hyn sydd â'r potensial i gloi carbon a brwydro'n ôl yn erbyn tymheredd byd-eang sy'n codi. Mae'n hanfodol ein bod nid yn unig yn diogelu'r gofodau hyn ond yn gadael iddyn nhw ffynnu – er lles pobl, y blaned a byd natur. Wrth i ni wella o argyfwng COVID-19, mae'r angen am fannau gwyrdd sy'n llawn natur lle rydym yn byw a gweithio yn gliriach nag erioed a bydd yn helpu iechyd, addysg a'r economi i adeiladu'n ôl yn gryfach.

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid cymryd camau nawr i gywiro hyn a rhoi natur mewn adferiad ar lefel leol, i gefnogi gwaith rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i wneud yr un peth.

Cyflwynodd adran 6 Rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) ddyletswydd uwch (y ddyletswydd S6) ar awdurdodau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd S6 yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth yn gyson ynghyd ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

Mae Cyngor Sir Powys eisoes wedi gwneud llawer gan gynnwys penodi Swyddog Bioamrywiaeth o dan gyllid Mannau Lleol ar gyfer Natur gan Lywodraeth Cymru a'u prif ddyletswydd yw dosbarthu grantiau i gefnogi natur i grwpiau ym Mhowys. O fewn ei wasanaethau ei hun mae'r Cyngor yn cynnal prosiectau megis rheoli ymylon ffyrdd ar gyfer natur drwy newid eu trefniadau rheoli torri a chasglu.

Mae'r swydd Swyddog Bioamrywiaeth – a ariennir yn allanol – yn rhoi cymorth i'r Bartneriaeth Natur Leol gyfredol ym Mhowys, fforwm sy'n dwyn ynghyd nifer o sefydliadau sydd â diddordeb mewn adfer natur ac sydd wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Powys yn ddiweddar.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cyflwyno cynnig i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i geisio cyllid allanol ar gyfer swydd ychwanegol ar gyfer y cyfnod o 2022 - Mawrth 2025. Byddai hwn i bob pwrpas yn Swyddog Adfer Natur, i wneud gwaith ehangach ar fioamrywiaeth, yn enwedig goruchwylio ac adrodd ar gyfer dyletswyddau Adran 6, ymgysylltu â gwasanaethau'r Cyngor a chymunedau ac adnabod prosiectau ar gyfer ceisiadau cyllido sy'n eistedd y tu allan i Fannau Lleol ar gyfer Natur.

Mae nifer o bobl yn parchu David Attenborough sydd wedi dweud:
*“Our planet may be home to 30 million different kinds of animals and plants. Each individual locked in its own life-long fight for survival. Everywhere you look, on land or in the ocean, there are extraordinary examples of the lengths living things go to to stay alive.*
*Ever since we [humans] arrived on this planet as a species, we’ve cut them down, dug them up, burnt them, and poisoned them. Today we’re doing so on a greater scale than ever.”*

Neu os byddai’n well gennych, Jeremy Clarkson *“forget climate change, if insects disappear so does all life on this Planet”.*

**Mae’r Cyngor yn nodi fod:**

1) Natur yn darparu’r systemau cymorth bywyd sy’n galluogi pob organeb, gan gynnwys bodau dynol, i oroesi a ffynnu.

2) Mae natur yn hanfodol i’n llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Natur sy’n darparu ystod o wasanaethau ecosystem megis pryfed sy’n peillio cnydau bwyd, gwlypdiroedd sy’n puro dŵr ac yn atal llifogydd, mawndiroedd sy’n storio carbon a choetiroedd sy’n puro’r aer inni ei anadlu. Mae natur yn darparu’r holl gynnyrch sy’n cefnogi ein heconomi, er enghraifft, modd i gynhyrchu bwyd, coed ar gyfer adeiladu a thanwydd, ac mae’n gefnlen i’n diwydiant twristiaeth.

3) Mae digonedd o dystiolaeth am gofnodi ac adrodd ar golli natur:

   a) **Mae'r IPBES (Llwyfan Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau) Asesiad Byd-eang o Fioamrywiaeth**, **Rhagolygon Bioamrywiaeth Fyd-eang y Cenhedloedd Unedig** ac **Adroddiad Planed Byw'r WWF** yn dangos bod lefelau bioamrywiaeth ar draws cyfandiroedd yn syrthio’n sydyn heb unrhyw y daw hyn i ben; mae rhyw filiwn o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion ledled y byd dan fygythiad o ddifodiant.

   b) Yn ôl adroddiad **Cyflwr Natur 2019** **gan gyngor JNCC y DU (Joint Nature Conservancy Council)** mae 1 o bob 6 o rywogaethau Cymru mewn perygl o ddifodiant a a dros y 50 mlynedd diwethaf, mae 73 rhywogaeth wedi diflannu eisoes, gyda 666 rhywogaeth arall dan fygythiad o ddiflannu.

c) Mae **Adroddiad Cyflwr ein Hadnoddau Naturiol 2020 gan Gyfoeth Naturiol Cymru** hefyd yn dangos bod rhywogaethau a chynefinoedd Cymru yn dirywio'n ddifrifol ac mae gwytnwch ein hecosystemau yn dirywio hefyd.

4) Does dim un achos unigol dros golli natur. Mae nifer o ffactorau yn cyfrannu ato, sy'n gymhleth ar lefel unigol, ac sy'n rhyngweithio â'i gilydd yn aml, ond maent yn cynnwys:
   a) Newid hinsawdd.
   b) Dwysáu arferion rheoli tir – a ysgogir gan economeg ehangach – ar dir ffermio a thir coedwigaeth.
   c) Pwysau datblygu.
   d) Llygredd.
   e) Newid Hydrolegol.

5) Yn **2021 cyhoeddodd y Senedd argyfwng natur**, un o'r llywodraethau cyntaf trwy'r byd i ddatgan y fath argyfwng. O ganlyniad mae gofyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno gofynion sy'n rhwymo mewn cyfraith, i wyrdroi colli bioamrywiaeth trwy dargedau statudol.

**Mae'r Cyngor yn credu:**

1) Fod natur yn hanfodol bwysig i bobl a ffyniant Powys. Un 'dynodwr' bach ond uchel ei broffil o hyn, yw ein defnydd ein hunain o'r barcud coch ar logo'r Cyngor. Mae'r barcud coch hefyd yn enghraifft o lwyddo i adfer rhywogaeth, sydd ei angen bellach ar gymaint o rywogaethau a chynefinoedd ym Mhowys.

2) Bydd y dirywiad parhaus o ran natur yn effeithio'n uniongyrchol ar drigolion, cymunedau a busnesau Powys ar draws nifer fawr o feysydd, gan gynnwys hyfywedd ein heconomi gwledig a'r bywoliaethau a gefnogir ganddynt, darparu bwyd fforddiadwy i'n trigolion, y gallu i reoli llifogydd a llesiant ein cymunedau, i enwi dim ond rhai.

3) Er gwaethaf y bygythiadau i natur, mae nifer o resymau inni fod yn obeithiol:

   a) Mae strwythur polisi a chynllunio gweithredol deddfwriaethol Cymru'n ystyried yn uniongyrchol yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys ein ffordd o'i reoli, a'r cysylltiadau â'n hiechyd a'n llesiant. Yn benodol:

      i) Mae **Deddf Amgylchedd (Cymru) (2016)** yn gosod dyletswydd estynedig ar bob corff cyhoeddus i geisio cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth.

      ii) Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)** yn pennu bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus manteisio i'r eithaf o safbwynt cyfrannu at yr holl nodau llesiant.

iii) Cymru oedd y wlad gyntaf i gyflwyno nodau datblygu cynaliadwy'r CU i'w pholisi cenedlaethol, a gan fod yr holl nodau cynaliadwyedd yn plethu i'w gilydd, mae hyn yn helpu ein gosod mewn sefyllfa i greu amgylchedd lle gall natur ffynnu.

b) **Cynllun Gweithredu i Adfer Natur Cymru**, sydd â ffocws ar Bowys a dogfen gyfatebol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ffurf **Cynllun Adfer Natur Powys** – nod y cynllun yw rhoi stop ar a gwyrdroi'r dirywiadau o ran bioamrywiaeth ar draws Powys.

c) Mae gan y cyhoedd – diolch yn bennaf i waith David Attenborough – ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd natur a'r bygythiadau sy'n berthnasol iddo. Gyda hyn, daw awydd cynyddol i weithredu'n uniongyrchol ac i gefnogi gweithrediadau eraill.

4) Yma ym Mhowys, mae gennym anoddau sylweddol sy'n ein galluogi i rwystro a gwyrdroi colli natur. Mae'n dechrau gyda rheolwyr tir dawnus a phrofiadol ein diwydiannau amaethyddol a choedwigaeth, cyfundrefn addysg uwch sydd â seilwaith i gefnogi datblygu sgiliau, partneriaeth natur leol a chynllun gweithredu sef Cynllun Adfer Natur Powys a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a thrigolion sy'n fwyfwy cefnogol o safbwynt gweithredu i warchod natur.

**Mae'r Cyngor yn penderfynu:**

1) Cyhoeddi Argyfwng Natur i ddangos ymrwymiad y Cyngor i warchod ac adnewyddu amgylchedd naturiol Powys o safbwynt ei werth cynhenid, o ran rôl; natur wrth wireddu economi llewyrchus a hyfyw, ac o safbwynt y buddion y mae natur yn eu cynnig i lesiant trigolion ein sir.

2) Sefydlu strwythurau cefnogol sy'n ymwreiddio bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys:

   a) **Sefydlu Gweithgor Argyfwng Hinsawdd traws-bleidiol** o fewn y Cyngor i helpu ymwreiddio bioamrywiaeth wrth i'r Cyngor wneud penderfyniadau, ei ymgysylltiad â phartneriaethau, a'i uchelgais o ran adfer natur ledled y sir.

   b) **Penodi Hyrwyddwr Natur** fel y caniateir gan gyfansoddiad y Cyngor hwn

   c) **Ceisio cyllid o adnoddau newydd allanol ar gyfer Swyddog Adfer Natur dynodedig a pharhaol,** a fydd, rhyngddynt, yn helpu ysgogi adfer natur o fewn y Cyngor ac annog rhanddeiliaid i weithredu, a cheisio cyllid allanol newydd i helpu galluogi adfer natur.

   d) **Ailddatgan cefnogaeth y Cyngor ar gyfer y Bartneriaeth Natur Leol,** ac annog a galluogi ei datblygu fel grŵp rhanddeiliaid annibynnol i gynrychioli'r sawl sy'n rheoli natur ochr yn ochr â'r rhai sy'n ei defnyddio a/neu yn elwa o natur.

3) Cymryd **camau gweithredu arwyddocaol** i wireddu cynnydd net mewn natur ledled y sir, gan gynnwys:

a) **Llunio ymateb – sy'n olrhain rôl y Cyngor – i Gynllun Adfer Natur Powys a gyhoeddwyd yn ddiweddar** a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth Natur Lleol Powys, ac sy'n olrhain y camau sydd eu hangen i ddiogelu a gwarchod systemau sy'n bodoli ar hyn o bryd ac i adfer natur ar raddfa a chyflymdra sy'n cyfateb i'r bygythiadau a wynebir gan natur.

b) **Arddangos arweinyddiaeth arwyddocaol** trwy adolygu sut y gellir defnyddio asedau a gwasanaethau'r Cyngor yn well i wyrdroi colli natur o fewn ein sir. **Blaenoriaeth hollbwysig yw'r Ystâd Ffermydd y Sir**. Wedyn ymestyn hyn, fel y caniateir gan adnoddau, i adolygu pob gwasanaeth megis Cynllunio (adolygu'r cyfleoedd a gynigir gan adolygiad y CDLl i weithredu'r cynnig er enghraifft), Priffyrdd (mabwysiadu rhagor o ymylon ffyrdd fel gwarchodfeydd natur), Gwasanaethau Addysg (datblygu sgiliau, tiroedd ysgol), Cefn Gwlad (rheoli parciau er enghraifft ac ati).

Cynigwyd gan y Cynghorydd Sir Adam Kennerley
Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Angela Davies

**Asesiad Ariannol - Swyddog Adran 151**
Bydd angen cymorth ar rai o'r camau a gynigir drwy amser swyddogion, a lle gellir gwneud hyn o fewn yr adnoddau presennol sydd ar gael i'r gwasanaeth, ni fydd y cynigion yn golygu unrhyw gost ychwanegol.

Bydd elfennau eraill o'r cynigion yn gofyn am adnoddau ychwanegol am gost ychwanegol. Cydnabyddir hyn yn rhannol gan gyfeirio at yr angen i sicrhau cyllid ychwanegol, neu fel y mae adnoddau'n caniatáu, ac ar y sail hon y mae'n rhaid ystyried/cefnogi'r camau arfaethedig. Os hyn fydd y sefyllfa, bydd angen ei gymeradwyo ymhellach drwy osod y gyllideb flynyddol neu'r broses drosglwyddo cyn y gallant fynd yn eu blaen.

| 15. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

15.1. **Cwestiwn i Aelod y Cabinet ar gyfer Powys sy'n Dysgu gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

Faint o ddisgyblion Powys, o du allan i ardal Cwm Tawe, sy'n teithio i Ysgol Ystalyfera i dderbyn eu haddysg?
(Tudalennau 145 - 146)

15.2. **Cwestiwn i Aelod y Cabinet ar gyfer Cysylltu Powys gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan**

O safbwynt yr argyfwng ynni sydd ar ddod, a'r cynnydd mewn costau i bawb, hoffwn dynnu eich sylw at gynigion yr Almaen –

- Uchafswm tymheredd o 9ºC mewn adeiladau cyhoeddus
- Dim gwres mewn rhannau cymunedol o adeiladau cyhoeddus (e.e.

coridorau)

- Peidio goleuo henebion ac adeiladau cyhoeddus.
- Ni chaniateir cadw drysau siopau ar agor yn barhaus
- Dim goleuo mewn ffenestri siopau nac ar fyrddau poster ar ôl 10 pm
- Ni chaniateir gwresogi pyllau preifat gydag ynni o’r grid.

Fedrwn ni fel awdurdod rhoi ar waith elfennau perthnasol y cynigion hyn, a thrwy hynny torri lawr ar ynni sy’n cael ei wastraffu, ond hefyd gwneud cyfraniad cadarnhaol i’r amgylchedd?
(Tudalennau 147 - 148)

**Ar ddiwedd y cyfarfod ffurfiol, cynhelir sesiwn briffio ar y Gwasanaethau Plant ac Addysg.**